Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl465

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Ymgodi'r gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Llwybrau Newydd wedi cyflwyno achos busnes yn gofyn am ymgodiad ar gyfer y gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol ar draws ardaloedd heddlu Dyfed-Powys, De Cymru a Gwent. Aeth y gwasanaeth hwn yn fyw ym mis Gorffennaf 2024 gyda chyllideb tair blynedd wedi'i chynnwys o fewn y cytundeb.

Mae'r achos busnes yn nodi'r sefyllfa genedlaethol, sbardunwyr pwysau cost a'r oblygiadau ar gyfer cyflenwi gwasanaeth. Fodd bynnag, nododd arweinwyr comisiynu nifer o bryderon â'r achos busnes, a oedd yn berthnasol ar gyfer pob ardal heddlu.

Mae deall y darlun ar draws y tair ardal wedi bod yn heriol. Ers derbyn yr achos busnes, bu cryn dipyn o gyfathrebu er mwyn ceisio cael eglurhad o ran y manylion. Nododd yr eglurhad hwn gamgymeriad cyfrif o fewn yr ymgodiad gofynnol ar gyfer Dyfed-Powys.

Yn 2025/26, rhagamcanwyd diffyg yn y gyllideb ar gyfer Dyfed-Powys. Fodd bynnag, lliniarwyd hyn gan absenoldebau salwch a swyddi gwag yn ystod y flwyddyn ac nid oedd angen unrhyw ymgodiad.

O ystyried y lefel o ansicrwydd ac amrywiant yn y data a gyflwynwyd, argymhellir yn y lle cyntaf bod ymgodiad safonol y Weinyddiaeth Gyfiawnder o 2% yn cael ei ddarparu (sydd gyfystyr â £5,097 yn 2026/27 a £5,199 posibl pellach yn 2027/28). Yn ystod yr amser hwn, bydd arweinwyr comisiynu'n ceisio sicrhau tryloywder ariannol pellach a safoni ar draws rhanbarthau yn ogystal â gweithio gydag arweinwyr prosiect Gwasanaethau Ymosodiad Rhywiol Cymru i nodi bwriadau comisiynu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth.

**Argymhelliad:**

Bod CHTh yn cymeradwyo ymgodiad o 2% ar gyfer y gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol sy'n unol â chyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac yn gyson â'r hyn a dderbynnir gan wasanaethau eraill. Mae hyn gyfystyr â £5,097 yn 2026/27 a £5,199 posibl pellach yn 2027/28.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad: 22.6.26**